# Cofnodion - Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

**Remote - Digital**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 27 Mehefin 2023

Amser: 09.00 - 09.29

# Preifat

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | Elin Jones AS, Llywydd (Cadeirydd)<br>Lesley Griffiths AS<br>Siân Gwenllian AS<br>Darren Millar AS |
| Staff y Pwyllgor: | Graeme Francis (Clerc)<br>Yan Thomas (Dirprwy Glerc) |
| Eraill yn bresennol | Jane Dodds AS<br>David Rees AS, Y Dirprwy Lywydd<br>Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd<br>Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd<br>Julian Luke, Pennaeth Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth,<br>Bethan Davies, Pennaeth Gwasanaethau y Siambr a Phwyllgorau,<br>Nia Moss, Y Gwasanaeth Ymchwil,<br>Dan Collier, Gwasanaeth Trawsnewid Stategol<br>Helen Carey, Llywodraeth Cymru |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

Croesawodd y Llywydd yr Aelodau i'r cyfarfod.

## 2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod blaenorol i'w cyhoeddi

## 3 Trefn Busnes

### 3.1 Busnes yr wythnos hon

**Dydd Mawrth**

Tynnodd y Trefnydd sylw'r Rheolwyr Busnes at y newidiadau a ganlyn:

- ~~Datganiad gan y Gweinidog Newid Hinsawdd: Ymateb y Llywodraeth i'r ymgynghoriad 'Datblygu Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU'~~ *Gohiriwyd tan 4 Gorffennaf*
- Bil Amaethyddiaeth (Cymru): Hysbysiad Ffurfiol o Gydsyniad Ei Fawrhydi (5 mun)

- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal fel yr eitem olaf o fusnes.
- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o fynd y tu hwnt i 6.55pm.

**Dydd Mercher**

- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal cyn y Ddadl Fer.
- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o fynd y tu hwnt i 7.40pm.

### 3.2 Amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Tynnodd y Trefnydd sylw'r Rheolwyr Busnes at y newidiadau a ganlyn:

Dydd Mawrth 4 Gorffennaf 2023

- Datganiad gan y Gweinidog Newid Hinsawdd: Ymateb y Llywodraeth i'r ymgynghoriad ‘Datblygu Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU’ (30 munud)

Dydd Mawrth 11 Gorffennaf 2023

- Datganiad gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg: Cynnydd ar gyflwyno'r cwricwlwm newydd (30 munud)

### 3.3 Amserlen busnes y Senedd ar gyfer y tair wythnos nesaf

Cytunwyd ar yr ychwanegiadau canlynol i amserlen Busnes y Senedd am y tair wythnos nesaf:

**Dydd Mercher 13 Medi 2023 –**

- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol: Anghynaliadwy – dyled o ganlyniad i gostau byw cynyddol (60 munud)
- Dadl ar ddeiseb P-06-1337 Prynu Sycharth, Cartref Owain Glyndŵr, er mwyn cadw'r safle yn saff i genedlaethau'r dyfodol (30 munud)
- Amser a neilltuwyd i’r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Dadl fer (30 munud)

# 4 Pwyllgorau

## 4.1 Llythyr gan Gadeirydd Pwyllgor Diben Arbennig Ymchwiliad Covid-19 Cymru ynghylch slot cyfarfod y pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor Busnes y cais i'r Pwyllgor gwrdd am y tro cyntaf ddydd Mawrth 11 Gorffennaf, a chytunwyd arno.

Dywedodd y Llywydd wrth y Rheolwyr Busnes y bydd adroddiad drafft sy'n cynnwys y Rheolau Sefydlog Dros Dro arfaethedig sy'n ymwneud â'r trefniadau cyd-gadeirio ar gyfer y Pwyllgor yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Busnes.

# 5 Diwygio'r Senedd

## 5.1 Papur i'w nodi - Llythyr gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd ynghylch diwygio'r Senedd a theitl y Llywydd

Nododd y Pwyllgor Busnes y llythyr a'r ffaith na fydd Llywodraeth Cymru yn gwneud newidiadau i'r teitl a ddefnyddir ar gyfer y Llywydd a'r Dirprwy Lywydd yn y ddeddfwriaeth sydd ar ddod ar Ddiwygio'r Senedd.

Cytunwyd y byddai'r Ysgrifenyddiaeth yn rhoi nodyn cyfreithiol ar wahaniaethau yng nghymhwysedd deddfwriaethol y Senedd i ddiwygio enw'r sefydliad a theitl y Llywydd a'r Dirprwy Lywydd.

# 6 Rhaglen waith weithdrefnol

## 6.1 Ystyriaethau gweithdrefnol ar ôl gadael yr UE

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i adolygu'r Rheolau Sefydlog perthnasol a nodwyd yn argymhellion diweddar y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad mewn perthynas ag effaith ymarferol Deddf Marchnad Fewnol y DU 2020 ar ddeddfwriaeth a wnaed gan y Senedd, neu sy'n effeithio arni.

Fel rhan o'r adolygiad, nododd y Pwyllgor Busnes y bydd cynigion yn cael eu cynhyrchu mewn perthynas â'r ffyrdd posibl y gellid diwygio Rheolau Sefydlog, a chytunwyd y byddai'n ymgynghori â'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad.

Cytunodd y Pwyllgor Busnes hefyd i ystyried cynigion i newid y trefniadau craffu cyfredol ar gyfer Fframweithiau Polisi Cyffredin fel yr argymhellwyd gan Bwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol y Bumed Senedd, mewn ymgynghoriad â Fforwm y Cadeiryddion.

## 7 Unrhyw faterion eraill

Cynigiodd Siân Gwenllian y dylid symud y trafodaethau ynghylch rhannu swyddi mewn swyddi ychwanegol anweithredol yn y Senedd i dymor yr hydref. Cytunodd y Pwyllgor Busnes i barhau â'i waith gweithdrefnol yn unol â'r rhaglen bresennol, gan gynnwys ystyried ymhellach rhannu swyddi yn ystod 2024, a thrafod rhaglen waith weithdrefnol wedi'i diweddaru ar ddechrau tymor yr hydref.